# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



Iesu

# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Iesu

**Gwybodaeth Gefndirol**

- Mae Cristnogion yn credu mai Iesu yw Mab Duw.
- Roedd Iesu yn gwneud gwyrthiau ac yn adrodd damhegion (straeon) am Dduw, y nefoedd a bywyd tragwyddol.
- Roedd llawer o bobl yn credu beth roedd Iesu'n ddweud, ac yn ei ddilyn.

**Beth Ddigwyddodd**

- Daeth y pryd bwyd gafodd Iesu gyda'i ddisgyblion fel rhan o Ŵyl y Pasg i'w adnabod fel Y Swper Olaf.
- Aeth Iesu i Ardd Gethsemane i weddïo am ei fod yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd ac roedd eisiau siarad gyda Duw y Tad.
- Rhoddodd Caiaffas, yr archoffeiriad, orchymyn i arestio Iesu oherwydd ei fod yn honni mai fe oedd Mab Duw.
- Cafodd Iesu ei ddedfrydu i farwolaeth gan Pontius Peilat, y Llywodraethwr Rhufeinig.
- Cafodd Iesu ei groeshoelio gyda dau droseddwr ar y Dydd Gwener sy'n cael ei adnabod bellach fel Dydd Gwener y Groglith.
- Ar yr un diwrnod ag y bu farw, cafodd Iesu ei gladdu mewn bedd oedd wedi ei naddu mewn craig.
- Ar fore'r trydydd dydd (sy'n cael ei alw yn Sul y Pasg) roedd yna ddaeargryn ac atgyfododd Iesu (daeth yn ôl yn fyw).
- Dangosodd Iesu ei hun yn fyw i Mair Magdalen, Pedr a'r disgyblion eraill, ac i lawer o bobl eraill dros yr wythnosau canlynol.

**Diffiniad**

- Ymgnawdoliad: Ymgnawdoliad ydy duw neu ysbryd ar ffurf dynol. Mae Cristnogion yn credu mai ymgnawdoliad o Dduw oedd Iesu – Duw yn berson o gig a gwaed, Duw fel bod dynol. Mae Cristnogion yn cofio hyn adeg y Nadolig.

**Beth Allwn ei Ddysgu**

- Yn ystod y Pasg cyntaf dangosodd Iesu emosiynau dynol, gan gynnwys ofni yr hyn oedd i ddod.Gyda help Duw llwyddodd i wynebu'r anawsterau oedd o'i flaen.Pan fyddwn yn teimlo'n unig neu'n ofnus ni ddylem fod â chywilydd gofyn am help.

**Ystyried**

- Elli di ddisgrifio amser pan roedd rhaid i ti wneud rhywbeth nad oeddet yn meddwl y gallet ei wneud? Sut oeddet ti'n teimlo?
- I bwy fyddet ti'n gofyn am help wrth wynebu sefyllfa anodd? Pam?
- Sut wyt ti'n meddwl mae credu yn Nuw yn helpu Cristnogion pan maent yn wynebu sefyllfaoedd anodd yn eu bywydau.